## Gadewch i ni wybod beth yw eich barn!

Credwn fod gan Natur Wyllt yn gyfraniad allweddol y gallwn ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth, sylweddolwn y bydd yn rhaid i ni adolygu'r dull rheoli mewn rhai ardaloedd i sicrhau fod ein gofodau gwyrdd yn gweithio i chi ac i natur.

## Let us know what you think!

We think Nature isn't Neat is a key contribution we can make to tackling the climate and biodiversity crisis, we appreciate that in some areas we will need to review management to ensure our green spaces work for you and for nature.

Rydym eisiau cael y cydbwysedd yn gywir felly gadewch i ni wybod eich barn am y newidiadau yn eich gofodau gwyrdd drwy sganio yma

We want to get the right balance so let us know what you think about the changes in your green spaces by scanning here




**Cefnogir y prosiect gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:**

Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig a chaiff ei ariannu gan grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru.

**The project is supported by the European Agricultural Fund for Rural Development:**

Europe Investing in Rural Areas and is funded by the Welsh Government's Enabling of Natural Resources and Well-being Grant.




## Frequently Asked Questions

**What about our places to play?** – Our recreation areas will still be maintained regularly, and patches mown for play and picnics. Areas of wildflowers and grass will provide opportunities for children to engage with nature on their doorstep.

**Will there be more litter?** – It's an offence to throw or drop litter in any place which the public have access and we will continue to monitor our greenspaces for litter.

**I'm worried about dog mess** – It is the dog owner's responsibility to collect all waste regardless of the grass height or environment. If a person allows their dog to foul and does not pick it up, they are committing an offence.

For dog walkers, paths will be cut through the grass meadows so there will still be plenty of routes for you to exercise your dogs.

**Will it make my hay fever worse?**– Highest pollen levels are normally experienced during the early summer months as a result of pollen being released from trees, garden plants and grass. Mowing can make hay fever worse by throwing pollen into the air as grass is cut.

In grassland and meadow areas, we will try to mow grassland areas when the pollen becomes more dense and disperses less easily, this is typically after May, June and July.







**Will road safety be considered?** – Verges next to junctions and roundabouts will continue to be mown to maintain visibility.

**Is this all just a cost saving exercise?** – We are working differently not less. Cutting and collecting the grass takes longer but allows our teams more time earlier in the season to undertake other improvements in your area.

**I think it looks untidy!** – After the flowering season, areas of long grass can start to look messy as plants put their energy into seeds for next year's wildflowers. These areas still have vital importance for pollinators, other insects, birds and mammals to enable them to complete their entire lifecycle and provide habitat for other wildlife like hedgehogs.

**How can I get involved?** - We would like to monitor sites to see how pollinator populations are changing with the altered management. If you would like to get involved email **gwentpollinators@monmouthshire.gov.uk**





# natur wyllt
# nature isn't neat









# Beth yw Natur Wyllt?

Mae'n ffordd amgen o reoli glaswelltiroedd mewn mannau gwyrdd er budd natur drwy greu dolydd a bod yn llai 'taclus'. Mae hyn yn gadael i flodau gwyllt a glaswelltau flodeuo a thyfu ac yn creu cynefinoedd gwell i bryfed peillio, fel gwenyn a gloÿnnod byw.

# What is Nature isn't Neat?

It's an alternative way of managing grasslands in green spaces to benefit nature by creating meadow areas and being less 'tidy'. This lets wildflowers and grasses flower and grow and creates better habitats for pollinators, such as bees and butterflies.

## Pam fod angen i ni newid dulliau rheoli?

Rydym mewn argyfwng bioamrywiaeth a hinsawdd, gall glaswelltir gadw cymaint o garbon â choedwigoedd. Mae torri gwair yn llai aml yn galluogi planhigion i dyfu systemau gwraidd mwy, gan storio mwy o garbon yn y pridd. Mae systemau gwraidd gwell yn cynyddu awyriad pridd, sy'n cynyddu storio dŵr ac felly'n helpu i ostwng llifogydd.

## Dull Gweithredu Natur Wyllt

**Byddwn yn gadael i flodau gwyllt a glaswellt dyfu drwy gydol y gwanwyn nes iddynt flodeuo a hadu yn yr haf mewn cynifer o ardaloedd ag sydd modd.**

Mae caniatáu i'r blodau dyfu yn galluogi peillwyr i borthi ar y neithior a'r paill, gan roi'r egni iddynt i beillio mwy o flodau, yn cynnwys ein cnydau ffrwythau a llysiau.

Mae glaswellt hir yn rhoi bwyd i bryfed fel ceiliogod rhedyn a gwyfynod ac yn rhoi mwy o fwyd i adar sy'n bwyta pryfed.

Dros gyfnod daw blodau gwyllt yn fwy toreithiog a'r ardal yn fwy deniadol. Felly efallai na fydd yn edrych fel llawer yn yr ychydig flynyddoedd cyntaf, ond mae'n dod yn fwy a mwy gwerthfawr ym mhob tymor.

Byddwn yn gwneud yn siŵr fod eich gofodau gwyrdd yn dal i weithio i chi , gan gynnal lleiniau gweledead a gadael llwybrau ac ardaloedd i chi eistedd a mwynhau natur.

## Why do we need to change management?

We are currently in a biodiversity and climate crisis, grasslands can store as much carbon as forests. Reducing mowing allows plants to grow bigger root systems, storing more carbon in the soil. Better root systems increase soil aeration, which increases water storage and so helps reduce flooding.

## Nature isn't Neat Approach

**In as many areas as possible, we will be letting wildflowers and grass grow throughout spring until they have flowered and set seed in summer.**

Letting the flowers grow allows pollinators to forage on the nectar and pollen, giving them energy needed to pollinate more flowers, including our fruit and vegetable crops. Long grass provides food for insects like grasshoppers and moths and provides more food for birds that feed on insects.

Over time wildflowers will become more abundant and the area more attractive, so it might not look like much in the first couple of years, but it is getting more and more valuable each season.

We will make sure that your greenspaces still work for you, maintaining visibility where needed and leaving pathways and areas for you to sit and enjoy nature.



# Cwestiynau Cyffredin

**Beth am fannau chwarae?** – Bydd ein hardaloedd hamdden yn dal i gael eu cynnal a'u cadw yn rheolaidd, a chaiff ardaloedd glaswellt eu torri ar gyfer chwarae a phicnics. Bydd ardaloedd o flodau gwyllt a glaswellt yn rhoi cyfleoedd i blant ymwneud gyda natur ar garreg eu drws.

**A fydd mwy o sbwriel?** - Mewn astudiaeth a gynhaliwyd ar ardaloedd presennol Natur Wyllt, canfuwyd fod cŵn yn llawer mwy tebygol i faeddu ar ardaloedd o laswellt byrrach yn hytrach na hir.

**Rwy'n poeni am faw cŵn** – Cyfrifoldeb perchennog y ci yw casglu'r holl wastraff beth bynnag yw uchder y glaswellt neu'r amgylchedd. Mae person yn cyflawni trosedd os ydynt yn gadael i'w ci faeddu a pheidio ei godi.

Ar gyfer cerddwyr cŵn, caiff llwybrau eu torri drwy'r dolydd felly bydd digon o lwybrau i chi roi ymarfer i'ch ci.

**A fydd yn gwneud fy nghlefyd y gwair yn waeth?** – Fel arfer ceir y lefelau paill uchaf yn ystod misoedd cyntaf yr haf oherwydd y caiff paill ei ryddhau o goed, planhigion gardd a glaswellt. Gall torri gwair wneud clefyd y gwair yn waeth drwy daflu paill i'r aer fel y caiff glaswellt ei dorri. Mewn ardaloedd glaswellt a dolydd, gwnawn ein gorau i dorri glaswellt pan ddaw'r paill yn ddwysach ac yn gwasgaru'n llai rhwydd, fel arfer mae hyn ar ôl Mai, Mehefin a Gorffennaf.







**A gaiff diogelwch ffyrdd ei ystyried?** – Byddwn yn dal i dorri gwair ar leiniau gweledead yn ymyl cyffyrdd a chylchfannau er mwyn cadw gwelededd.

**Ai dim ond ffordd o dorri costau yw hyn i gyd?** – Rydym yn gweithio'n wahanol, nid llai. Mae'n cymryd mwy o amser i dorri a chasglu'r gwair ond mae'n rhoi mwy o amser i'n timau yn gynharach yn y tymor i wneud gwelliannau eraill yn eich ardal.

**Rwy'n meddwl ei fod yn edrych yn flêr!** –Ar ôl y tymor blodeuo, gall gwair hir ddechrau edrych yn flêr wrth i blanhigion roi eu hegni i hadau ar gyfer blodau gwyllt y flwyddyn nesaf. Mae'r ardaloedd hyn yn dal yn hollbwysig i beillwyr a phryfed eraill, adar a mamaliaid i'w galluogi i gwblhau eu holl gylch oes a rhoi cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt arall fel draenogod.

**Sut y gallaf gymryd rhan?** - Hoffem fonitro safleoedd i weld sut mae poblogaethau peillwyr yn newid gyda'r dull rheoli newydd. Os hoffech gymryd rhan anfonwch e-bost at **gwentpollinators@monmouthshire.gov.uk**

